BARDD PLANT CYMRU

Adnabod Bardd

Anni Llŷn

Ydych chi erioed wedi clywed am ‘stori-o-dy-ben-trwy-dy-geg’? Naddo? Wel, mae’n rhaid fy mod i wedi cael magwraeth freintiedig iawn felly! A dwi’n meddwl fy mod i, o safbwynt straeon. Roedd ‘stori-o-dy-ben-trwy-dy-geg’ yn stori gwbl wreiddiol yr oedd yn rhaid i Mam druan ei hadrodd yn y fan a’r lle wrth erchwyn y gwely a ninnau’r plant yn gwrthod mynd i gysgu nes ein bod ni wedi cael ein plesio gan stori o’r fath. Dwi ddim yn cofio pa fath o safon oedd i’r straeon, ond dwi’n siŵr nad oedden nhw cystal â straeon T. Llew Jones neu’r Mabinogi yr oedden ni newydd eu clywed ar y soffa yn ein pyjamas *cyn* mynd i’r gwely.

O’r plentyndod hwnnw y tyfodd fy hoffter o’r straeon, y cymeriadau a’r bydoedd anhygoel oedd i’w cael rhwng dau glawr, neu wrth gwrs, o fy mhen a thrwy fy ngheg. Wrth dyfu, doeddwn i ddim yn ystyried ysgrifennu stori neu gyfansoddi cân yn ddim byd anarferol, ac roeddwn i’n gwneud hynny heb feddwl am y peth. Ond erbyn i mi gyrraedd y brifysgol cefais gyfle i ysgrifennu’n fwriadol, fel petai.

Rydw i wastad wedi bod yn un sy’n mwynhau meddwl am ffordd dda o ddefnyddio geiriau, ac yn hoffi dadansoddi beth yw’r ffordd orau o ddweud rhywbeth. Dwi’n meddwl bod hynny wedi deillio o dreulio dyddiau addysg ac ymarferion llefaru yn dadansoddi llenyddiaeth ac yn mwynhau ei harchwilio.

Mae rhoi’r dasg o gyfansoddi cerdd, neu ysgrifennu sgript ddoniol neu stori afaelgar, i mi fy hun yn her, a dwi’n mwynhau’r her honno. Wrth ysgrifennu unrhyw fath o lenyddiaeth, mae angen amser a gwaith cyn i rywun deimlo ei fod yn orffenedig. Ac er mor fychan y gall darn o farddoniaeth fod, y rhai lleia, yn aml, yw’r rhai anodda. Ond does ‘na ddim teimlad tebyg i orffen cerdd a theimlo’n fodlon ar y gwaith. A dwi’n gobeithio y bydd plant Cymru yn gallu profi tamaid o’r mwynhad rydw i’n ei gael wrth chwarae efo geiriau.

Llun: Emyr Young

2015

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ONLINE

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

S4/C

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Adnabod Bardd

Anni Llŷn

BARDD PLANT CYMRU

Bardd Plant Cymru 2015-17

www.barddplant.cymru @BarddPlant

Enw Anni Llŷn Parri

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais i fy ngeni ym Mangor, ac yna fy magu yn Sarn Mellteyrn, Pen Llŷn.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Pont y Gof, Ysgol Uwchradd Botwnnog, Coleg Meirion-Dwyfor, a Phrifysgol Caerdydd.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Ro'n i'n casáu gwaith cartref a gorfod codi'n gynnar, ond doeddwn i ddim yn meindio'r gwersi. Ro'n i'n hoffi gweld fy ffrindiau bob dydd.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Rydw i wedi bod trwy gyfnodau o fod eisiau bod yn ffarmwr, neu fel Mam yn gwneud bob dim!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Roedd Mam yn dda iawn am ddarllen stori i ni gyda'r nos. Roedd llyfrau T. Llew Jones a'r Mabinogion yn ffefrynnau.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Dwi wrth fy modd yn canu, a dwi'n chwarae'r gitâr. Dwi'n mwynhau darllen ond dwi'n ara deg iawn! Hefyd dwi'n mwynhau gwneïo neu wau, ac uwchgylchu ambell ddodrefnyn.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Fy nghariad, fy nheulu, fy ffrindiau.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Mae hyn yn gallu amrywio. Does gen i ddim ofn mynd yn flin am bethau ... ond dwi'n trio peidio gwneud hynny'n gyhoeddus!

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu/barddoni? Roeddwn i'n gwneud yn sgil fy ngwaith ysgol heb feddwl amdano. Dwi'n cyfansoddi caneuon ers 'mod i'n ifanc (dim rhai da iawn!). Mi wnes i ennill tlws gan y papur bro am ysgrifennu unwaith, ac roedd hynny'n rhoi mymryn o hyder i mi. Ond roedd astudio llenyddiaeth, ei dehongli a'i dadansoddi, yn mynd â 'mryd i'n fwy na'i hysgrifennu. Yna fel rhan o fy nghwrs gradd yn y coleg, mi wnes i ddilyn modiwl ysgrifennu creadigol. Wedi hynny roeddwn i'n teimlo ei fod o'n rhan ohona i.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? Mi wnes i gyhoeddi *Nanw a Caradog Crafog Llwyd Lloerig* fel rhan o gyfres Lolipop, Gwasg Gomer yn 2013.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd ysgrifennu/barddoni? Unwaith dwi wedi cael y syniad, neu'r cnewyllyn, dwi'n ei chael hi'n weddol hawdd, yn enwedig wrth ysgrifennu stori neu sgript. Dwi'n cymryd mwy o amser i fod yn fodlon ar gerdd – mae'n fater o ddod yn ôl ati droeon.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Fel arfer, gall rhywbeth bach iawn fy ysbrydoli, rhywbeth dwi'n ei weld neu'n ei glywed. Mae gwrando ar bobol yn sgwrsio neu'n dweud eu hanes yn tanio rhywun, hyd yn oed os ydi o'n rhywbeth mor fanwl â'r ffordd maen nhw'n dweud rhyw air penodol. Fel rheol, cymeriadau sydd yn dod i mi'n gyntaf.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Dwi ddim yn meddwl 'mod i wedi darganfod fy hoff themâu neu bynciau. Mi ddaw hynny wrth i mi ysgrifennu mwy, siŵr o fod. Ond dwi'n trio peidio bod ofn defnyddio'r dychymyg, ac ysbrydoli'r plant i wthio eu dychymyg ymhellach na'r hyn sy'n dderbyniol mewn ystafell ddosbarth, o bosib. Dwi hefyd yn trio creu cymeriadau unigryw – dwi'n meddwl bod hynny'n bwysig, hyd yn oed os ydi o'n ddim ond un manylyn bach anarferol.

Ydych chi wedi ennill unrhyw wobrau neu anrhydeddau? Mi wnes i ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri 2012. Roedd cael y wobr honno yn uchafbwynt. Wna i byth anghofio'r teimlad na'r hyder dwi wedi ei gael o dderbyn y feirniadaeth. Yr anrhydedd fwyaf yw cael fy newis yn Fardd Plant Cymru.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu/barddoni? Sgwennwch gymaint ag y medrwch chi. Hyd yn oed pan nad oes galw i chi wneud, gwnewch o i chi'ch hun. Cofnodwch unrhyw bethau bach yn ystod eich bywyd sy'n eich diddori, eich cosi neu'n eich drysu.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Wel, dwi'n gobeithio newid hyn yn ystod y blynyddoedd nesa ... cael mwy o afael ar y gynghanedd.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? *Ysbyty Hospital*, rhaglen ddoniol iawn ar S4C gyda Nyrs debyg iawn i fi! Dwi'n mwynhau chwaraeon a dramâu da. Dwi'n mwynhau *Parch* ar hyn o bryd, ac wedi bod yn hollol sownd i'r sgrin wrth wylio *Game of Thrones* yn ddiweddar.

Beth yw eich hoff fwyd? Wna i byth wrthod stecen dda!

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Ffilmio cyfres 3 *Ysbyty Hospital*.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Fedra i ddim rapio cystal â'r Bardd Plant diwethaf!